

national
slate
museum
amgueddfa
lechi
cymru



uwch

gweithgareddau 1-6

national
museum
wales
amgueddfa
cymru



Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly
Government

llinell amser

tiwtor

Nod: Dysgu am lechfaen, hanes datblygiad y diwydiant a rhagoriaethau'r llechi

Camau:

1. Darllen Taflen 1 fel grŵp gyda'r tiwtor. Ateb y cwestiynau a thrafod manteision llechi gogledd Cymru mewn parau.
2. Hanes y Diwydiant Llechi.


Rhannu'r grŵp yn ddau

Grŵp A i ddarllen y nodiadau am 200-1900 OC a thrafod unrhywbeth sy'n codi.

Grŵp B i ddarllen y nodiadau 1900-2000 OC a thrafod unrhywbeth sy'n codi.

Parau o Grŵp A a Grŵp B i ddefnyddio Taflenni 2a a 2b i holi ei gilydd.

3. Pawb i fynd i Stafell Peris i weld yr arddangosfeydd.



llinell amser

dysgwr

Taflen 1: Hanes Llechfaen a'r Diwydiant Llechi

560-400 miliwn o flynyddoedd yn ôl

Roedd llawer o dir Cymru o dan y môr.

Roedd llawer o fwynau yn y mwd ar waelod y môr.

Wrth i'r ddaear symud mi wnaeth y mwd galedu yn graig llawn mwynau – dyma'r llechfaen.

Wrth i'r ddaear symud wedyn mi gododd gwaelod y môr i greu mynyddoedd Eryri.

Dan ni'n gwybod oed y llechfaen achos bod ffosiliau yn y graig.

Mae prif ardaloedd llechi Cymru yn Eryri – Bethesda, Llanberis, Dyffryn Nantlle, Blaenau Ffestiniog a Chorris.

Yn Llanberis a Bethesda roedd y llechfaen mewn haen fertigol ar ochr y mynydd.

Roedd hi'n bosib chwythu'r graig ar ochr y mynydd i gael y llechfaen.

Mae'n bosib hollti'r llechfaen yn llechi o achos yr holl fwynau sydd yn y graig.

Mae'r gwahanol fwynau'n rhoi lliwiau gwahanol i'r graig.

mwynau - *minerals*

haen - *layer*

Atebwch y cwestiynau efo'ch partner.

Sut le oedd Cymru 560-400 miliwn o flynyddoedd yn ôl?

Beth ddigwyddodd i'r mwd?

Sut ydan ni'n gwybod faint ydy oed y llechfaen?

Pam mae'n bosib hollti'r llechfaen yn llechi?

Maen nhw'n dweud mai llechi gogledd Cymru ydy'r llechi gorau yn y byd.

Pam?

Dyma fanteision llechi fel defnydd toi:

Maen nhw'n para'n hir.

Dydy glaw a rhew ddim yn effeithio arnyn nhw.

Mae eu lliw yn ddeniadol.

Maen nhw'n hawdd eu torri a'u hollti.

Maen nhw'n weddol ysgafn i'w gosod ar y to.

llinell amser

dysgwr

Taflen 2: Partner A

200-1900 OC

Dyma hanes cynnar llechi. Darllenwch y darn ac yna atebwch gwestiynau eich partner.

200-300 OC

Defnyddiodd y Rhufeiniaid lechi wrth adeiladu eu caer yn Segontium.

Tua 1300 OC

Defnyddiodd Edward y Cyntaf lechi wrth adeiladu Castell Conwy.

O'r bedwaredd ganrif ar ddeg (19eg ganrif) tan y ddeunawfed ganrif (18eg ganrif)

Dros y canrifoedd hyn roedd pobl Eryri yn crafu wyneb y mynydd i gael llechi.

1782

Roedd 'na nifer o chwareli bach ar dir yr Arglwydd Penrhyn. Yn 1782 mi ddaeth o â'r rhain at ei gilydd i wneud un busnes mawr. Dyma ddechrau Chwarel y Penrhyn.

1787

Mi gafodd 'chwarel fawr newydd' ei hagor ar Fynydd Elidir gan Thomas Assheton-Smith a dau ddyn busnes arall. Dyma ddechrau Chwarel Dinorwig.

1877

Erbyn hyn roedd 96 o chwareli llechi yng ngogledd Cymru.

1850-1910

Dyma gyfnod aur y chwareli.

Roedd dinasoedd a threfi mawr yn cael eu hadeiladu ar draws y byd ac roedd angen llechi ar y toeau. Roedd llechi Cymru yn cael eu hallforio i bob rhan o'r byd.

Roedd dros 3,000 o ddynion yn gweithio yn Chwarel Bethesda (Penrhyn), yn ogystal a dros 3,000 yn Llanberis (Dinorwig).

Penrhyn a Dinorwig oedd y chwareli agored mwyaf ym Mhrydain.

Yr Oakley oedd y chwarel danddaearol fwyaf yn y byd; roedd tua 1,700 o ddynion yn gweithio yno.

1898

Yn y flwyddyn hon cynhyrchodd 17,000 o ddynion 485,000 tonnall o lechi.

Dyma'r flwyddyn brysraf erioed yn hanes y fasnach lechi. Dyma anterth y diwydiant.

Geirfa

y Rhufeiniaid	-	<i>the Romans</i>
crafu wyneb	-	<i>to scratch the surface</i>
allforio	-	<i>to export</i>
tanddaearol	-	<i>underground</i>
cynhyrchu	-	<i>to produce</i>
anterth	-	<i>zenith</i>

uwch 1

llinell amser

dysgwr

Taflen 2a: Partner A

Gofynnwch y cwestiynau canlynol i'ch partner am hanes y diwydiant yn yr ugeinfed (20fed) ganrif.

Beth ddigwyddodd yn 1900?

Pryd gorffennodd hi?

Beth oedd y broblem o 1910 ymlaen?

Pwy brynodd Chwarel y Penrhyn?

Pryd?

Faint o ddynion oedd yn gweithio yn Chwarel Dinorwig yn 1969?

Beth ddigwyddodd y flwyddyn honno?

Pryd agorodd yr Amgueddfa Lechi?

Pryd agorodd Ceudyllau Llechwedd?

Pam bod storm yn Awstralia wedi rhoi hwb i'r diwydiant?

Sut mae'r diwydiant wedi newid erbyn heddiw?

hwb - *boost*

llinell amser

dysgwr

Taflen 2: Partner B

1900-2000 OC

Darllenwch y canlynol ac atebwch gwestiynau eich partner am hanes y diwydiant yn yr ugeinfed (20fed) ganrif.

1900-1903 Streic y Penrhyn

Dyma un o'r streiciau hiraf yn hanes Prydain. Roedd y chwarelwyr eisiau isafswm cyflog a ffordd well o siarad efo'r rheolwyr. Roedd hwn yn gyfnod anodd iawn, iawn ym Methesda.

1910 ymlaen

Roedd llai o alw am lechi a dechreuodd y chwareli bach gau o un i un.

1964

Prynodd Cwmni McAlpine Chwarel y Penrhyn.

1969-1971

Caeodd chwareli Dinorwig, Dorothea ac Oakley.

1969

Cafodd Chwarel Dinorwig ei chau yn ystod gwyliau haf y chwarelwyr yn fuan ar ôl yr Arwisgo yng Nghastell Caernarfon. Collodd 350 o ddynion eu gwaith.

1971

Cafodd yr Amgueddfa Lechi ei hagor yn y Gilfach Ddu.

1972

Agorodd Ceudyllau Llechwedd fel atyniad twristaidd.

1999

Cafodd toeau llawer o adeiladau pwysig Awstralia eu difrodi mewn stormydd mawr. Cafodd llwyth mawr o lechi o Chwarel y Penrhyn eu hanfon i Awstralia i'w trwsio.

2000 -

Heddiw mae tua 500 o bobl yn cael eu cyflogi gan y diwydiant.

Mae peiriannau mawr yn cael eu defnyddio i chwythu, symud a thorri'r llechfaen.

Mae 'na beiriant i naddu'r llechi ond maen nhw'n dal i hollti efo llaw.

Mae merched yn gweithio yn y diwydiant erbyn heddiw.

Geirfa

isafswm cyflog	-	<i>minimum wage</i>
Yr Arwisgo	-	<i>The Investiture</i>
ceudwll	-	<i>cavern</i>

llinell amser

dysgwr

Taflen 2b: Partner B

Gofynnwch y cwestiynau canlynol i'ch partner:

Pwy oedd y bobl gyntaf i ddefnyddio llechi yn ôl y llyfrau hanes?

Beth dach chi'n wybod am Gastell Conwy?

Beth oedd yn digwydd rhwng y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r ddeunawfed ganrif?

Beth ddigwyddodd yn 1782?

Beth ddigwyddodd yn 1787?

Faint o chwareli oedd 'na yng Nghymru erbyn 1877?

Pa rai oedd y chwareli mwyaf?

Faint o ddynion oedd yn gweithio ynddyn nhw?

Beth oedd yn arbennig am 1898?

hanes Dafydd

tiwtor

Nod: Darllen a deall hanes Ceidwad yr Amgueddfa, sgwrsio amdano a gwneud tasgau estynedig

Camau

1. Darllen a deall y brawddegau ar Daflen 2.
2. Darllen Taflen 1 gan:
 - a) wneud yr ymarfer geiriau ar Daflen 3
 - b) chwilio am y camgymeriadau ffeithiol ar Daflen 2
 - c) trafod y darn.
3. Anfon y grŵp allan i chwilio am y 'Dytchis Mawr' a'r 'Car Gwyllt'. Eu hannog i holi'r gofalwyr.
4. Adrodd yn ôl i Stafell Padarn.

hanes Dafydd


dysgwr

Taflen 1

Helo, fy enw i yw Dafydd Roberts, a fi yw Ceidwad Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis. Rwy'n falch iawn o'm swydd, oherwydd fy mod yn parhau cysylltiad fy nheulu efo'r diwydiant llechi. Chwarelwyr – yn Chwarel y Penrhyn, Bethesda – oedd fy nhad, fy nhaid a'm hen daid.



Ceidwad yr Amgueddfa sydd yn gyfrifol am arolygu pob agwedd o'r gwaith a wneir yma. Mewn gwirionedd, rydym yn gwneud pob math o dasgau yma. Fel ymwelwyr, byddwch yn gweld ein staff yn hollti llechi, yn gweithio yng ngefail y gof, yn y siop, yn y caffi neu'n gofalu am eich diogelwch. Ond mae llawer yn digwydd allan o olwg ymwelwyr: rydym yn gofalu am ein creiriau ac yn ymchwilio i'w hanes, rydym yn paratoi defnyddiau addysgol o bob math ac mae angen marchnata a hybu'r Amgueddfa yn gyson.



Un o'r pethau pwysicaf am ardaloedd y chwareli llechi yw eu bod i gyd yn fannau lle mae'r Gymraeg yn parhau mewn defnydd cyson gan nifer sylweddol iawn o'r boblogaeth. Disgrifiwyd y diwydiant llechi fel 'y mwyaf Cymreig o ddiwydiannau Cymru', ac mae hyn wedi golygu fod gan y chwarelwyr, ddoe a heddiw, eirfa helaeth iawn yn y Gymraeg i ddisgrifio eu crefft a'u

cynnyrch. Cewch ddarganfod eich hunan pwy, neu beth, oedd y 'Dytchis Mawr' a'r 'Car Gwyllt'!

O ardaloedd y chwareli llechi, hefyd, y daeth rhai o'n hawduron enwocaf yng Nghymru. Mae dylanwad y diwydiant ei hun a'r gymdeithas gref, ddiddorol oedd yn gysylltiedig ag ef yn drwm ar waith Kate Roberts (Rhosgadfan), T. Rowland Hughes (Llanberis) a Caradog Prichard (Bethesda). Ac mae'n diwylliant fel cenedl yn parhau i weld dylanwad y diwydiant llechi mewn caneuon gan grwpiau fel Frizbee (Blaenau Ffestiniog) neu gelfyddyd arlunwyr ifanc fel Darren Hughes (Bethesda).



hanes Dafydd

dysgwr

Taflen 2:

Darllenwch y brawddegau isod. Ar ôl eu darllen a'u deall darllenwch y darn am Dafydd Roberts a chwiliwch am y camgymeriadau ffeithiol yn y brawddegau yma.

Mae gan Dafydd Roberts swydd bwysig yn yr Amgueddfa Lechi.

Mae gan ei deulu gysylltiad hir iawn â diwydiant y chwareli.

Roedden nhw'n gweithio yn Chwarel Dinorwig.

Mae o'n gyfrifol am gadw llygad ar holl waith y safle.

Mae'r ymwelwyr yn gweld popeth sy'n digwydd yno.

Does dim angen hysbysebu gwaith yr Amgueddfa.

Cymraeg oedd iaith y chwareli.

Mae gan y diwydiant eirfa arbennig.



Roedd llawer o'n hawduron pennaf yn dod o ardal y chwareli:

Kate Roberts

Saunders Lewis

Caradog Prichard

Mae dylanwad y chwareli ar ddiwylliant yr ardal o hyd.

Geirfa

cysylltiad	-	<i>connection</i>
cyfrifol	-	<i>responsible</i>
diwydiant	-	<i>industry</i>
pennaf	-	<i>main, chief</i>
diwylliant	-	<i>culture</i>
dylanwad	-	<i>influence</i>

hanes Dafydd

dysgwr

Taflen 3:

Cysylltwch y geiriau yng ngholofn A efo'r geiriau yng ngholofn B:

A

ceidwad
parhau
arolygu
creiriau
ymchwilio
marchnata
hybu
mewn defnydd cyson
helaeth
awdur

B

cadw llygad ar
chwilio am wybodaeth
gwthio, cefnogi
hysbysebu a gwerthu
mawr
person sy'n sgrifennu
pennaeth
hen bethau pwysig
yn cael ei ddefnyddio'n aml
dal i wneud rywbeth



Ewch allan i'r iard i chwilio am

'Dytchis Mawr'

'Car Gwyllt'

Beth ydy maint 'Dytchis Mawr'?

Beth ydy enw'r 'Car Gwyllt'?



Beth oedden nhw'n wneud efo'r car gwyllt?

hanes Celia

tiwtor

Nod: Darllen am waith Swyddog Addysg yr Amgueddfa, sgwrsio amdani, darllen cerddi a gwyllo fideo.

Camau

1. Darllen a deall y brawddegau ar Daflen 2 gan sylwi ar yr eirfa.
2. Darllen Taflen 1, gan:
 - a) wneud yr ymarfer geiriau ar Daflen 3
 - b) chwilio am y camgymeriadau ffeithiol ar Daflen 2
 - c) trafod y darn.
3. Darllen cerddi'r plant ar Daflen 4.
4. Gwyllo'r fideo ac ateb y cwestiynau ar Daflen 5.

hanes Celia

dysgwr

Taflen 1

Sut mae? Celia Wyn Parri yw fy enw i, rwy'n gweithio fel Swyddog Addysg yn Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis.

Mae fy ngwaith yn amrywiol iawn. Ar gyfer ysgolion rwy'n trefnu ymweliadau a pharatoi deunydd addysgiadol; ar gyfer ymwelwyr cyffredinol rwy'n helpu i ddarparu taflenni a phaneli gwybodaeth. Rwy'n aelod o bwyllgor bach sydd yn gyfrifol am drefnu gweithgareddau ar y safle ar adegau fel dydd Gŵyl Dewi a Chalan Gaeaf.

Un o'r sesiynau rwy'n mwynhau eu trefnu ar gyfer ysgolion ydy'r gweithdai barddoniaeth. Bob diwrnod am wythnos mae gwahanol ysgol gynradd yn dod i'r Amgueddfa i gyfarfod â dau fardd. Erbyn tri o'r gloch y prynhawn mae'r plant wedi llwyddo i greu cerdd, neu weithiau



gân, gyda'r beirdd. Yn aml iawn nid yw'r plant yn sylwi eu bod nhw dysgu'r grefft o farddoni – iddyn nhw, mae'r diwrnod wedi bod yn llawn sgysiau, trafod geiriau a chyfnwid syniadau. Ar ddiwedd y dydd mae'r plant yn mynd adref gyda'u cerdd unigryw fel tystiolaeth o'u gwaith caled.

Gwaith arall sy wedi bod yn werthfawr iawn yn ystod fy nghyfnod yma ydy'r project drama mewn partneriaeth â Phrifysgol Cymru Bangor. Mae hwn wedi seilio ar hanes Streic Fawr y Penrhyn. Tasg y myfyrwyr ydy llunio perfformiad yn dweud stori'r streic fydd yn apelio at ddisgyblion ysgolion uwchradd. Yn ogystal â hynny mae'r myfyrwyr yn gorfod defnyddio safle'r Amgueddfa i gyfleu awyrgylch ac amodau gwaith y diwydiant llechi. Fel arfer bydd y perfformiadau'n digwydd yn ystod tywydd mawr y gaeaf – sialens go iawn i'r rhai sydd yn trefnu'r dillad!

uwch 3

hanes Celia

dysgwr

Taflen 2

Darllenwch y brawddegau isod. Ar ôl eu darllen a’u deall, darllenwch y darn gan Celia Wyn Parri a chwiliwch am y camgymeriadau ffeithiol yn y brawddegau yma.

Swyddog Addysg yr Amgueddfa ydy Celia.

Mae hi’n gwneud llawer o wahanol dasgau.

Mae hi’n trefnu ymweliadau ysgolion.

Mae hi’n dysgu’r plant.

Mae hi’n helpu i baratoi paneli gwybodaeth.

Mae hi’n hoff iawn o drefnu dyddiau arlunio i blant ysgolion cynradd.

Mae’r plant yn mwynhau sgrifennu cerddoriaeth efo’r beirdd.

Tasg ddiddorol ydy trefnu prosiect efo myfyrwyr Prifysgol Cymru, Aberystwyth.

Mae’r myfyrwyr yn llunio perfformiad wedi’i seilio ar hanes Streic Fawr Dinorwig.

Bydd plant ysgolion uwchradd yn dod i weld y perfformiad.

Fel arfer bydd y perfformiad yn yr haf.

Geirfa

ymweliad/au	-	<i>visit/s</i>
paratoi	-	<i>to prepare</i>
cerddoriaeth	-	<i>music</i>
beirdd	-	<i>poets</i>
llunio	-	<i>to create</i>
wedi’i seilio	-	<i>based on</i>

hanes Celia

dysgwr

Taflen 3

Cysylltwch y geiriau yng ngholofn A efo'r geiriau yng ngholofn B:

A	B
amrywiol	rhywbeth sy'n dangos beth sy wedi bod yn digwydd
deunydd addysgiadol	yr unig un
darparu	sgil
gweithdy	amgylchiadau gwaith
tystiolaeth	creu teimlad y lle
ar y cyd	cyfarfod lle mae pobl yn gwneud rhywbeth
cyfnewid syniadau	paratoi
unigryw	nifer o wahanol bethau
cyflew awyrgylch	pethau ar gyfer dysgu
amodau gwaith	rhannu syniadau
crefft	efo

hanes Celia

dysgwr

Taflen 4

Blas ar y Chwarel

Sŵn trwm yn syrthio ar y tywod
mae'r bwced haearn yn dod
i lenwi boliau'r patrymau
mewn lle nad yw byth yn cau.

Hen arogl pren yn llofft y patrwm
Wil y saer yn ei grysbas llwm
yn troi pren yn beiriannau
yn chwysu a thagu am swllt neu ddau.

Y llechi mân fel powlen yn malu
yn garped ar lawr y Gilfach Ddu
a chreithiau ar ddwylo garw'r chwarelwr
Ac ar ei galon yn ddigon siwr.

Cornel lwyd yng ngysgod y mynydd
yn ferw o fynd bob awr o'r dydd
a'r Olwyn Fawr yn guriad calon
yn gyrru'r garreg hogi a'r lli gron.

Ac yn y caban, cael blas ar stori,
a chinio chwarel a hwyl di-ri,
sŵn cymdeithas yn cydio'n ei gilydd
sŵn y Gymraeg yn cadw'r ffydd.

Blwyddyn 4, Ysgol y Gelli, Caernarfon
gydag Iwan Llwyd a Meirion McIntyre Huws

Amgueddfa Lechi Cymru
10fed o Hydref 2001

hanes Celia

dysgwr

Taflen 4 ym.

Bargen y chwarelwr

Codi cyn y ceiliog
Cyn i'r haul roi gwên
Ceiniog i ddyn y fferi
Ceiniog i ddyn y trên
Ceiniog am ei arfau
Ceiniog i 'sbyty'r gwaith
a 'chydig bach yn weddill
i Mam ar ben y daith.

Cytgan:

Caled yw ei fargen yn y chwarel
Ond mae'r caban yn un teulu mawr:
Rhannu, helpu, pawb yn gefn i'w gilydd,
Lleisiau'n uno'n gôr uwch llwch y llawr.

Plasdy crand yr Arglwydd
Yn dodrefn drwyddo i gyd,
Morynion yno'n brysur
Yn gweini llestri drud;
Teras y chwarelwr
Yn fach a'r byrddau'n llwm,
Walïau moel a diflas,
Cysgodion du a thrwm.

Blwyddyn 4, Ysgol Bontnewydd
gyda Myrddin ap Dafydd a Geraint Lovgreen

Amgueddfa Lechi Cymru
16eg o Hydref 2002

hanes Celia

dysgwr

Taflen 4 ym.

Streic

Chwiban hir yr hen drên stem
Ar gei y Felinheli
ond heddiw mae'r cerbydau'n wag
a llonydd ydi'r llechi
am fod y meistr yn y plas
yn sathru ar wŷr y garreg las.

Troi a throi mae'r olwyn fawr
ond distaw yw'r peiriannau
dim gwreichion sgidie hoelion mawr
yn atsain drwy y siediau:
tan bod ysgwier y Faenol bell
yn talu'i weithwyr o yn well.

Mae'r hen gloc mawr yn taro chwech
ond mae'r chwarelwr adref
yn poeni a gaiff o eto waith
a'i deulu yn dioddef:
ond unig boen perchennog blin –
mai gwag o hyd yw'r blocyn tin.

Sŵn traed yn pasio ar y stryd
un gweithiwr yn dychwelyd
rhaid chwythu ar y gragen fôr
a dal i gredu hefyd
fod yr undeb yn ddigon cry'
am nad oes bradwr yn y tŷ.

Chwiban hir yr hen drên stem
daw'r hogia yn ôl ar redeg
mae'r olwyn fawr yn dal i droi
a'r gwŷr yn hollti'r garreg:
fe dorrwyd crib gŵr bach y plas
gan werin gref y garreg las.

Ysgol y Felinheli
gydag Iwan Llwyd a Gwen Lasarus

Amgueddfa Lechi Cymru
21ain o Hydref 2004

hanes Celia

dysgwr

Taflen 5

Drama o'r Amgueddfa Lechi – Newyddion S4C

Bydd yr holl luniau, tapiau sain a ffilmiau sy'n angenrheidiol ar gyfer y tasgau ar gael yn yr Angueddfa.

1. Lle mae'r perfformiad? _____
2. Mae cyflwyniad dramatig yno o hanes _____
3. 'Rhaid cael Cymry i dorri'r garreg
Nid yw'r graig yn _____
4. Oedd y Caban yn llawn? _____
5. Pwy oedd yn cydweithio efo'r Amgueddfa? _____
6. Dim set _____ ond lleoliadau go _____ meddai Nic Ros.
7. Beth sy'n creu naws ac awyrgylch y cyfnod yn y tŷ? _____
8. O ba ysgol oedd y bobl ifanc yn dod? _____
9. Oedden nhw'n eistedd i weld y perfformiad? _____
10. Beth oedden nhw'n ei feddwl o'r perfformiad? _____


hanes Cadi

tiwtor

Nod: Darllen hanes Cadi lolen, sgwrsio amdani, gwyllo fideo am y Ffowndri ac ymweld â Llofft y Patrwm.

Camau

1. Darllen a deall y brawddegau ar Daflen 2.
2. Darllen y darn ar Daflen 1, gan:
 - a) wneud yr ymarfer geiriau ar Daflen 3
 - b) chwilio am y camgymeriadau ffeithiol ar Daflen 2.
3. Darllen a deall y brawddegau am y Ffowndri ar Taflen 4. Gwyllo'r ffilm (heb sain) gan roi tic wrth y frawddeg wrth weld y llun. Mae'n bosib edrych ar y ffilm eto gan wrando ar y sain os bydd y grŵp yn dymuno. Yna dosbarthu taflen 4a, rhoi'r brawddegau yn ôl mewn trefn trwy drafod mewn parau.
4. Mynd i weld Llofft y Patrwm yng nghwmni Cadi lolen.



uwch 4

hanes Cadi

dysgwr

Taflen 1

Helo, fy enw i yw Cadi lolen ac rwy'n gweithio fel Curadur yn Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis. Fy ngwaith i yw gofalu am y creiriau sydd yn ffurfio casgliad yr Amgueddfa. Mae'r casgliad yn cynnwys amrywiaeth eang o greiriau, er enghraifft, wagenni rheilffordd, peiriannau mawr fel byrddau llifio, injan stêm o'r enw Una, olwyn ddŵr enfawr a rhes o bedwar tŷ teras.

Yn ogystal, mae gan yr Amgueddfa gasgliad gwerthfawr iawn o batrymau pren a ddefnyddiwyd yn ffowndri Chwarel Dinorwig yma yn y Gilfach Ddu. Roedd y ffowndri yn cynhyrchu cydrannau metel ar gyfer pob math o beiriannau ac offer a ddefnyddiwyd yn y chwarel. Y cam cyntaf yn y broses o gynhyrchu'r cydrannau metel oedd creu patrymau pren a oedd yn cael eu gosod ar lawr y ffowndri ac yna'n cael eu pacio gyda thywod arbennig. Wedyn, byddai'r patrwm pren yn cael ei godi oddi ar y llawr, gan adael ei siâp yn y tywod. Yna, tolltai'r gweithwyr haearn tawdd i fewn i siâp y patrwm yn y tywod er mwyn creu'r cydrannau.

Mae gan yr Amgueddfa dros ddwy fil o batrymau pren yn y casgliad. Fy ngwaith i yw dogfennu'r rhain. Mae hyn yn golygu fy mod yn rhoi 'rhif adnabod' i bob patrwm; yn tynnu llun, pwyso a mesur pob patrwm; ac yn ysgrifennu adroddiad byr, neu gerdyn catalog, ar gyfer pob patrwm. Mae gwneud gwaith dogfennu fel hyn yn bwysig oherwydd mae'n ein galluogi ni fel staff yr Amgueddfa i adnabod y gwrthrychau sydd yn ffurfio ein casgliad, ac wrth gwrs yn wybodaeth werthfawr i staff y dyfodol!

Dewch draw i'n gweld yma yn Llanberis!

hanes Cadi

dysgwr

Taflen 2

Darllenwch y brawddegau isod. Ar ôl eu darllen a'u deall, darllenwch y darn gan Cadi lolen a chwiliwch am y camgymeriadau ffeithiol yn y brawddegau yma.

Curadur yn yr Amgueddfa Lechi ydy Cadi.

Mae hi'n gyfrifol am edrych ar ôl creiriau'r Amgueddfa e.e. olwyn ddŵr enfawr, injan stêm, hen lori, rhes o dai.

Mae 'na gasgliad gwerthfawr o batrymau pren oedd yn cael eu defnyddio yn y ffowndri yn yr Amgueddfa.

Cyn medru gwneud darnau metel i beiriannau'r chwarel roedd rhaid gwneud patrwm pren o'r darn.

Roedd crefftwyr yn gwneud mowld yn y clai efo'r patrwm ar lawr yr efail.

Ar ôl tynnu'r patrwm allan roedden nhw'n tywallt jeli poeth i'r mowld er mwyn gwneud y darn newydd.

Ar hyn o bryd mae hi'n brysur yn rhoi trefn ar y patrymau pren.

Mae 'na 4,000 o batrymau pren yn y casgliad.

Rhaid iddi hi: dynnu llun bob patrwm
fesur bob patrwm
bwyso bob patrwm
beintio bob patrwm.

Rhaid iddi hi sgrifennu cerdyn catalog ar gyfer bob patrwm.

hanes Cadi

dysgwr

Taflen 3

Cysylltwch y geiriau yng ngholofn A efo'r geiriau yng ngholofn B:

A	B
curadur	Ile roedd y gof (<i>blacksmith</i>) yn gweithio efo haearn
creiriau	teras/nifer o dai
enfawr	llawer o bethau tebyg efo'i gilydd
rhes	Ile roedden nhw'n toddi metel
casgliad	copi mewn pren o offer metel
patrwm pren	person sy'n gweithio mewn amgueddfa
ffowndri	hen bethau gwerthfawr
yr efail	mawr iawn

Geirfa:

amrywiaeth	-	<i>variety</i>
llifio	-	<i>to saw</i>
cydran/nau	-	<i>component/s</i>
cynhyrchu	-	<i>to produce</i>
tollti/ tywallt	-	<i>to pour</i>
haearn tawdd	-	<i>molten iron</i>
dogfennu	-	<i>to document</i>

uwch 4

hanes Cadi

dysgwr

Taflen 4

Y Ffowndri

Roedd y crefftwyr yn y ffowndri'n gwneud cydrannau metel ar gyfer holl beiriannau'r chwarel a hyd yn oed yn gwneud pethau fel y ffenestri a'r hysbysfyrdau.

Mae'r ffilm yn dangos crefftwr wrth ei waith. Bob Roberts, Mowldiwr oedd ei enw.

**Dyma ddisgrifiad o'r broses o gastio darnau metel ar gyfer y gwaith.
Ticiwch bob cam o'r broses wrth ei weld ar y ffilm:**

Gosod blwch (bocs) mowld ar lawr y ffowndri.

Gosod patrwm pren yn y blwch.

Rhoi tywod o'i gwmpas a'i wasgu'n dynn.

Lefelu'r tywod yn ofalus iawn, iawn.

Sgriwio darn o fetel i'r patrwm.

Rhoi haen o dywod glas/llwyd ar ben y tywod yn y mowld isaf er mwyn medru tynnu'r blwch uchaf.

Rhoi blwch mowld arall ar ben y cyntaf.

Llenwi'r blwch efo tywod a'i wasgu eto.

Gwneud twll yn y tywod er mwyn i'r metel lifo i mewn.

Tynnu'r mowld uchaf yn ofalus (mae'r tywod glas/llwyd yn help i wneud hyn).

Tynnu'r patrwm pren yn hynod o ofalus o'r tywod.

Rhoi'r mowld uchaf yn ei ôl yn ofalus iawn, iawn.

Rhoi pwysau trwm ar ben y mowld.

Toddi'r metel yn y ffwrnais a'i dywallt i'r mowld.

Y diwrnod wedyn, agor y mowld, tynnu'r cast allan a'i lanhau.

**Dach chi'n cofio gwneud cestyll yn y tywod?
Dach chi'n cofio'r problemau?**

uwch 4

hanes Cadi

dysgwr

Taflen 4a

Mae'r brawddegau hyn wedi eu cymysgu.

Siaradwch efo'ch partner a rhowch rif wrth ochr bob brawddeg i ddangos y drefn iawn.

Gwneud twll yn y tywod er mwyn i'r metel lifo i mewn.

Gosod patrwm pren yn y blwch.

Sgriwio darn o fetel i'r patrwm.

Rhoi'r mowld uchaf yn ei ôl yn ofalus iawn, iawn.

Y diwrnod wedyn, agor y mowld, tynnu'r cast allan a'i lanhau.

Gosod blwch mowld ar lawr y ffowndri.

Llenwi'r blwch uchaf efo tywod a'i wasgu eto.

Rhoi tywod o'i gwmpas a'i wasgu'n dynn.

Toddi'r metel a'i dywallt i'r mowld.

Rhoi haen o dywod glas/llwyd ar ben y tywod yn y mowld isaf er mwyn medru tynnu'r blwch uchaf.

Tynnu'r patrwm pren yn hynod o ofalus o'r tywod.

Lefelu'r tywod yn ofalus iawn, iawn.

Rhoi blwch mowld arall ar ben y cyntaf.

Tynnu'r mowld uchaf yn ofalus (mae'r tywod glas/llwyd yn help i wneud hyn).

Rhoi pwysau trwm ar ben y mowld.

hanes Hugh R. Jones

tiwtor

**Nod: a) Gwrando ar sgwrs Hugh Richard Jones a thrafod ei hanes
b) Gwyllo rhan o "Straeon yn y Meini" a thrafod y storïau**

Camau:

1. Gwrando ar fersiwn araf o'r sgwrs.
2. Darllen y brawddegau. Gwrando eto a llenwi'r bylchau.
3. Gwrando ar y sgwrs wreiddiol.
4. Trafod:
Y diwrnod gwaith
Prentisiaeth
Cyflogau
Cadw trefn ar bobl ifanc.

Straeon yn y Meini

1. Gwyllo bob darn yn ei dro nes eu bod wedi deall y prif pwyntiau.
2. Trafod:
Atgofion am goginio yn eu plentyndod
Cymharu bwydydd y gorffennol a bwydydd heddiw
Atgofion am deidiau a neiniau a chymdogion
Atgofion am ysmegu.

hanes Hugh R. Jones

dysgwr

Hugh Richard Jones oedd Prif Beiriannydd y Gilfach Ddu pan gaeodd y gwaith yn 1969.

Gwrandewch ar ei hanes yn hogyn ifanc a llenwch y bylchau efo partner.

15 oed oedd o pan ddechreuodd o weithio yn y Gilfach Ddu.

Prentis 'ffitter' oedd o.

Roedd y trê yn hwylus iawn i fynd i'r gwaith.

Roedd o'n gadael y tŷ am 6.30 yn y bore.

Roedd o'n dechrau gweithio yn Y Gilfach Ddu am _____.

Roedd o'n gorffen gweithio am _____.

Roedd o'n ddiwrnod hir iawn o'r tŷ o _____ tan _____.

Cyflog

_____ am hanner blwyddyn.

_____ y dydd am yr ail hanner blwyddyn.

Wedyn, codiad o _____ bob blwyddyn.

Roedd y prentisiaid yn cael cyflog llawn ar ôl dysgu'r gwaith yn iawn.

Prentisiaeth

Dechrau yn y Gilfach Ddu a dysgu efo dyn profiadol am _____ blynedd cyn mynd i'r chwarel ei hun.

Ar ôl tair blynedd mi aeth o i'r _____ i ddysgu trin yr injys stêm.

Roedd 'na _____ o injys stêm yno.

Mi ddechreuodd o weithio yn _____.

uwch 5

hanes Hugh R. Jones

dysgwr

Roedd 'na grefftwyr _____ iawn yno –

- 15 o seiri coed
- 10 pentan ar gyfer gofaint.
- *Pattern makers*
- *Fitters*
- *Electricians*
- Seiri meini chwarel

Adeiladu popeth yno efo _____ .

Trên y chwarel

Ar drên y chwarel roedd pawb yn eistedd yn _____ bob dydd.

Roedd gan bawb docyn _____ efo nymber _____

a nymber _____ arno.

Roedd 'na fforman yn _____ .

Roedd rhaid i'r _____ eistedd efo _____

er mwyn cadw trefn ar y trên.

Geirfa

hwylus	-	<i>convenient</i>
saer maen	-	<i>stone mason</i>
seiri meini	-	<i>stone masons</i>
llafnau ifanc	-	<i>young blades!</i>

straeon yn y meini

dysgwr

Edrychwch ar y ffilm a llenwch y bylchau yn y brawddegau.

Doreen Davies, 2 Fron Haul

Mae popeth, boed _____ neu popty yn cael ei ffotograffio a'i gofnodi.

Bydd hyd yn oed _____ 'blac led' yn edrych yn union fel yr oedd.

Roedd gynnon ni ddwy grât, un yn y cefn, yn y _____ ac ar honno oedd Mam yn gwneud y bwyd.

Roedd hi'n plygu _____ lle bod o'n baeddu.

Roedd pob _____, tatws yn y pobty, pob _____

_____ yn cael ei wneud. Doedd gynnon ni ddim stôf.

Roedden ni'n cael pwdin hefyd bob amser ar ddydd Sul, y rhan fwy o'r amser

_____ wedi cael ei wneud mewn dysgl dun – enamel glas

...wedi croenio'n _____.

Roedd 'na _____ / ffeit bob tro pwy oedd yn cael crafu'r ddysgl.

Modryb – Aneurin Davies, 2 Fron Haul

Mi fyddai hen _____ i ni'n byw yn Fron Haul ers talwm.

Hen _____ ffeind oedd hi hefyd.

Mi fyddai hi'n gwneud cyfleth i ni efo triog a _____

a _____.

Ar ôl iddo fo _____ dipyn roedd hi'n torri darnau ohono a'i dynnu

am _____.

straeon yn y meini

dysgwr

...ei rowlio'n ddarnau bach i fynd _____ efo ni. Roedd hi'n un _____ ofnadwy.

Hanes yr adeiladu sy'n dod nesaf

John Lloyd, 3 Fron Haul

Taid Robin Lloyd Jones

Hen ŵr amryddawn ... gŵr ffeind iawn. Roeddwn i bob amser yn

_____ iawn i dreulio sawl gyda'r nos bob wythnos yn ei gwmni.

_____ oedd o a _____ oedd dillad wythnos. Dillad Sul yn ddillad smart i fynd i'r _____ .

Roedd o wedi colli ei _____ .

Roedd gynno fo glamp o _____ , _____ walrus,

_____ ... a'i bigau'n frown ... achos ... os oedd y baned o de dipyn

bach yn boeth roedd hi'n cael mynd i'r _____ a byddai gwaelodion y mwstas wedyn y pigo i mewn i'r _____ yn y soser.

Mwstas mawr _____ efo pigau _____ .

Leusa Jones

Mi fyddai hi'n dod i'n gwarchod ni'r hogia pan fyddai Mam a Nhad yn

mynd allan ar _____ ac mi fyddai'r hen fodryb Leusa'n gwneud

_____ i ni efo papur llwyd a _____ , a smocio.

Fyddai Dad a Mam yn dod adre.

"Dach chi'n dysgu'r hogia 'ma _____ ", meddai Mam.

uwch 5

straeon yn y meini

dysgwr

“Mae’u _____ wedi eu dysgu nhw ers blynyddoedd” fyddai’r hen Leusa’n ddweud wrth Mam.

Roedden ni’n cael llawer iawn o _____ efo hi.

Geirfa

boed	-	<i>whether it is</i>
baeddu	-	<i>to become dirty</i>
croenio	-	<i>to develop a skin while cooking</i>
crafu	-	<i>to scrape</i>
ffeind	-	<i>kind</i>
cyfleth	-	<i>treacle toffee</i>
melysion cartref	-	<i>home-made sweets</i>
triog	-	<i>treacle</i>
amryddawn	-	<i>talented</i>
clamp	-	<i>very large</i>
papur llwyd	-	<i>brown paper</i>

holhti a naddu

tiwtor

Nod: Gweld y chwarelwr yn holhti a naddu llechi.

Camau

1. Gwyllo sesiwn Holhti a Naddu – fersiwn y cyhoedd.

